Department for Education

# Ymgynghoriad: Cynllun Pensiwn Athrawon

## Rheoliadau pellach i gwblhau'r diwygiadau

28 Ebrill 2014

# Cynnwys


Cynigion y mae angen ymgynghori yn eu cylch 3

Cyflwyniad 3

Diwygiadau gwasanaeth cyhoeddus a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014 3

Ymgynghori ynglŷn â'r diwygiadau i'r rheoliadau eraill sy'n cwmpasu trefniadau ar gyfer y TPS ac ychwanegiadau i Reoliadau TPS 2014 4

Y broses ymgynghori 4

Y cynigion 5

Rhan 1: Rhagarweiniol 5

Rhan 2: Prisio'r cynllun, gweithredu'r cap ar gostau cyflogwyr a threfniadau ariannu ar gyfer gweinyddu'r TPS 5

Rhan 3: Cyfraddau cyfraniadau aelodau 10

Rhan 4 Trosglwyddiadau clwb a threfniadau ar gyfer aelodau sydd â gwasanaeth cymaradwy ym Mhrydain a gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig 13

Rhan 5: Diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 2010 15

Rhan 6 Newidiadau amrywiol a thechnegol i Reoliadau TPS 2014 a Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2010 16

Cwestiynau pellach 22

Sut i ymateb 22

Copïau ychwanegol 22

Cynlluniau ar gyfer cyhoeddi'r canlyniadau 22

# Cynigion y mae angen ymgynghori yn eu cylch

## Cyflwyniad

### Diwygiadau gwasanaeth cyhoeddus a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014

1. Mae pobl yn byw yn llawer hwy, ar gyfartaledd ddeng mlynedd yn hwy nag yn y 1970au. Mae hyn yn golygu bod cost darparu pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys pensiynau athrawon, wedi cynyddu draean yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Er gwaethaf diwygiadau diweddar, mae'r rhan fwyaf o'r costau hynny yn cael eu talu gan drethdalwyr. Yn dilyn argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (y Comisiwn), a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Hutton o Furness, mae pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn fwy cynaliadwy a fforddiadwy yn yr hirdymor, ac yn decach i aelodau a'r trethdalwr.
2. Ar 9 Mawrth 2012, cyhoeddodd yr Adran Addysg (yr Adran) Gytundeb Terfynol Arfaethedig (PFA) a nododd y fframwaith ar gyfer Cynllun Pensiwn diwygiedig i Athrawon o 1 Ebrill 2015. Ymhlith darpariaethau allweddol y cynllun diwygiedig mae'r canlynol: pensiwn yn seiliedig ar enillion cyfartalog gyrfa gyfan; cyfradd gronni o 1/57fed; ac Oedran Pensiwn Arferol (NPA) sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ond gydag opsiynau i alluogi aelodau'r cynllun i ymddeol yn gynharach neu'n ddiweddarach na'u NPA. Ym mis Gorffennaf 2012, penderfynwyd bwrw ymlaen â'r PFA cyhoeddedig yn dilyn dadansoddiad cydraddoldeb manwl.
3. Yn sgil ystyriaeth fanwl, trafodaethau gyda grwpiau cynrychioliadol, ac ymgynghoriadau â phob rhanddeiliad (a lansiwyd ar 7 Mai a 13 Medi 2013), mae'r Adran wedi paratoi'r rheoliadau terfynol – Rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014 ("Rheoliadau TPS 2014") – sy'n cwmpasu prif ddarpariaethau'r TPS diwygiedig. Fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ym mis Mawrth 2014 ac maent yn darparu'r fframwaith ar gyfer trefniadau cyfartaledd gyrfa yn y TPS yn ogystal â chyfnod pontio ar gyfer y trefniadau newydd.
4. Ceir manylion llawn am y PFA a'r ymgynghoriadau yn: http://www.education.gov.uk/schools/careers/payandpensions/b00204965/proposed-teacher-pension-scheme-reforms

   Mae'r rheoliadau ar gael yn:

   http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/512/contents/made
5. Bydd y diwygiadau i'r TPS yn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn un o'r rhai gorau sydd ar gael – gyda lefelau gwarantedig o fuddiannau a diogelwch rhag chwyddiant. Bydd yn rhoi pensiwn cynaliadwy o safon uchel i aelodau sy'n adlewyrchu eu gwasanaeth gwerthfawr i fyd addysg, a bydd yn helpu cyflogwyr i ddenu a chadw athrawon rhagorol.

## Ymgynghori ynglŷn â'r diwygiadau i'r rheoliadau eraill sy'n cwmpasu trefniadau ar gyfer y TPS ac ychwanegiadau i Reoliadau TPS 2014

6. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriadau cynharach, mae angen deddfwriaeth bellach er mwyn cwblhau'r trefniadau llawn ar gyfer y TPS diwygiedig, oherwydd y canlynol -
   - roedd angen datblygu rhai meysydd polisi y tu allan i brif strwythur rheoliadau'r TPS ymhellach o hyd cyn y gellid cyflwyno rheoliadau addas;
   - roedd y diwygiadau'n golygu bod angen gwneud rhai diwygiadau canlyniadol i'r trefniadau yn Rheoliadau Pensiwn Athrawon 2010; a
   - roedd yr Adran wedi nodi nifer o ddiwygiadau amrywiol yr oedd angen eu gwneud i'r trefniadau TPS cyffredinol er mwyn gwella/egluro sut maent yn gweithio.
7. Mae'r Adran bellach wedi gorffen ystyried y materion dan sylw ac wedi nodi isod sut mae'n cynnig mynd i'r afael â hwy. Lle y bo'n briodol, mae hyn yn ystyried cyfarwyddiadau canolog ar gyfer cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus a wnaed gan Drysorlys EM a thrafodaethau gyda grwpiau sy'n cynrychioli cyflogwyr ac aelodau drwy Fforwm Trafod y TPS.
8. Mae'r cynigion yn cynnwys:
   - ychwanegiadau at Reoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014;
   - diwygiadau i Reoliadau Pensiwn Athrawon 2010;
9. Nod y cynigion yw cwblhau'r darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer gweithredu'r TPS yn llwyddiannus o 1 Ebrill 2015 yn unol â'r PFA.

## Y broses ymgynghori

10. Mae'r ddogfen hon yn lansio cyfnod pellach o ymgynghori ar y Cynllun Pensiwn Athrawon diwygiedig a threfniadau cysylltiedig. Nodir y cynigion polisi dan sylw yn fanwl isod, a chaiff y rheoliadau drafft, a fyddai'n rhoi'r cynigion ar waith, eu darparu i randdeiliaid eu hystyried yn ystod y broses ymgynghori. Bydd yr Adran yn sicrhau y caiff rhanddeiliaid ddigon o amser i ystyried y cynigion polisi a'r rheoliadau drafft.
11. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau yn rhai technegol eu natur ac nid ydynt yn golygu unrhyw newid i bolisi, ond, eto i gyd, mae angen eu gwneud er mwyn sicrhau y caiff y TPS ei weithredu'n ddidrafferth; ac yn enwedig y cyfnod pontio o drefniadau cyflog terfynol i drefniadau cyfartaledd gyrfa. Mae'r manylion isod yn nodi'r newidiadau dan sylw, a gofynnir i chi wneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar y cynigion polisi a'r rheoliadau drafft.
12. Cynhelir yr ymgynghoriad dros 12 wythnos rhwng 28 Ebrill 2014 a 18 Gorffennaf 2014. Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy gwblhau'r ffurflen ymateb a'i hanfon drwy e-bost i: reformedteacherspension.consultation@education.gsi.gov.uk neu drwy anfon eich ymateb drwy'r post i: Teachers' Pensions Reform Team,

Department for Education, GF Area B, Mowden Hall, Staindrop Road, Darlington, DL3 9BG.

13. Mae'r rheoliadau yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a Deddf Blwydd-daliadau 1972.

# Y cynigion

## Rhan 1: Rhagarweiniol

14. Nod y cynigion yw cwblhau'r trefniadau deddfwriaethol ar gyfer gweithredu'r TPS diwygiedig o 1 Ebrill 2015. At hynny, mae rhai o'r cynigion (gweler diwygiadau amrywiol) yn anelu at wella eglurder/gweithrediad rhannau o'r trefniadau presennol, lle mae profiad o achosion penodol, er enghraifft, wedi dangos bod angen gwneud hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r cynigion yn rhai technegol o ran natur, neu'n deillio o ddarpariaethau wedi'u pennu mewn rheoliadau a chanllawiau trech a bennwyd gan Drysorlys EM. Nodir y newidiadau hynny, a newidiadau eraill dan sylw, isod, a gofynnir i chi ystyried a gwneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar yr ymgynghoriad hwn. Yn y pen draw, mae'r cynigion yn sicrhau y caiff y TPS ei ddiwygio yn unol â'r PFA ac ymgynghoriadau cynharach.

15. Fel rhan o'i rhwymedigaethau parhaus o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) mae'r Adran wedi parhau i asesu effeithiau ar gydraddoldeb ac wedi paratoi asesiad ar wahân o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â chyfraniadau aelodau o 2015. Nid yw'r Adran o'r farn bod unrhyw oblygiadau pellach o ran cydraddoldeb wedi codi o ganlyniad i'r cynigion yn y ddogfen hon.

## Rhan 2: Prisio'r cynllun, gweithredu'r cap ar gostau cyflogwyr a threfniadau ariannu ar gyfer gweinyddu'r TPS

Prisio'r cynllun a gweithredu'r cap ar gostau cyflogwyr

16. Prisio'r cynllun yw'r broses lle mae actiwari'r cynllun yn asesu sefyllfa ariannol y cynllun. Mae'r broses yn cymharu asedau'r cynllun â'i rwymedigaethau (h.y. y gronfa fuddsoddi dybiannol yn erbyn yr arian y disgwylir y bydd ei angen i dalu buddiannau yn awr ac yn y dyfodol). Ei diben yw cadarnhau a oes gan y cynllun warged neu ddiffyg ar adeg benodol - gan ddefnyddio cyfres o ragdybiaethau ariannol a demograffig - a phennu cyfradd cyfraniadau briodol ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

17. Nododd yr Arglwydd Hutton sut y gellid gwella'r broses brisio er mwyn sicrhau mwy o eglurder a'i gwneud yn haws i gymharu cynlluniau. Argymhellodd hefyd y

dylai fod dull o gapio costau cyflogwyr lle y byddai costau cyflogwyr (ac felly drethdalwyr) yn cael eu capio ar lefel y cytunwyd arni, a lle y byddai dull o'u hadfer i'r lefel honno pe bai'r cap yn cael ei dorri.

18. Ar ôl cyfres o ymgynghoriadau ar 13 Mawrth 2014, cyhoeddodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys bolisi terfynol y Llywodraeth ynglŷn â phrisio a'r cap ar gostau cyflogwyr; gellir cael y manylion drwy ddilyn y ddolen isod -

https://www.gov.uk/government/publications/public-service-pensions-actuarial-valuations-and-the-employer-cost-cap-mechanism.

Mae cyfarwyddiadau ("y cyfarwyddiadau") a rheoliadau Trysorlys EM yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer ymgymryd â'r rhain a'u gweithredu. Mae'r fframwaith yn cwmpasu manylion technegol y prosesau dan sylw ac mae'n nodi hefyd yr hyn y mae'n ofynnol i'r Adran ddarparu ar ei gyfer yn rheoliadau TPS er mwyn cydymffurfio â'r gofynion dan sylw. Yn unol â hynny, mae'r Adran yn cynnig darparu ar gyfer y canlynol yn y rheoliadau TPS -

- *Caiff prisiadau eu cynnal yn unol â'r terfynau amser a nodwyd yn y cyfarwyddiadau* - yn ymarferol, mae hyn yn golygu prisiad cychwynnol ar 31 Mawrth 2012, gyda phrisiadau pellach yn cael eu cynnal bob pedair blynedd wedi hynny (e.e. caiff y prisiad nesaf ei gynnal ym mis Mawrth 2016 a disgwylir iddo gael ei weithredu ym mis Ebrill 2019).

- *Y gyfradd cyfraniadau newydd i gyflogwyr sydd i'w gweithredu o fis Medi 2015* -dylai'r cyfarwyddiadau nodi bod y cyfrifiadau ar gyfer pennu'r cyfraddau cyfraniadau sy'n deillio o brisiadau 2012 fod yn seiliedig ar y dybiaeth y cânt eu gweithredu ym mis Ebrill 2015. Fodd bynnag, am fod cyllidebau ysgolion a cholegau yn cael eu pennu yn ôl blynyddoedd academaidd fel arfer, cynigir y bydd canlyniad prisiad 2012 ar gyfer y TPS yn cael ei weithredu o fis Medi 2015. Bydd hyn yn rhoi mwy o amser i ysgolion a cholegau baratoi ar gyfer y cynnydd disgwyliedig yn y gyfradd cyfraniadau. Yn yr un modd, bydd oedi cyn gweithredu'r gyfradd cyfraniadau yn arwain at ddiffyg bach yn cronni'r TPS. Caiff hyn ei ystyried yn ystod y prisiad nesaf a thrwy hynny sicrheir y caiff costau llawn y cynllun eu hadlewyrchu mewn cyfraddau cyfraniadau yn y dyfodol.

- *Gofyniad i baratoi adroddiad prisio sy'n cynnwys y wybodaeth wedi'i nodi yn unol â'r cyfarwyddiadau* – mae hyn yn cynnwys: data cryno: rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd; yr elfennau amrywiol sy'n rhan o gyfanswm y gyfradd cyfraniadau i'w dalu; a manylion y dadansoddiad o'r cap ar gostau.

- *Pennu cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr yn unol â chanlyniad y prisiad a chyfarwyddiadau* – ar gyfer y prisiad cychwynnol, i'w weithredu o fis Medi 2015, hon fydd y gyfradd cyfraniadau gyffredinol a bennir drwy'r prisiad llai cyfraniad cyfartalog y cyflogai sef 9.6%. Pennodd y Llywodraeth lefel cyfradd y cyflogeion yn gynharach yn y broses ddiwygio (gweler, er

enghraifft, ‘Public Service Pensions: good pensions that last’ Trysorlys EM, dyddiedig mis Tachwedd 2011, a gadarnhaodd mai’r gyfradd flaenorol (6.4%) ynghyd â 3.2%) fyddai’r gyfradd a chadarnhaodd Trysorlys EM yn y cyfarwyddiadau sut y câi cyfradd y cyflogwr ei phennu. Ar 13 Mawrth 2014, cyhoeddodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, drwy ddatganiad Gweinidogol ysgrifenedig, ganlyniadau cychwynnol y prisiad o’r TPS; dangosodd hyn mai 26% fyddai’r gyfradd cyfraniadau gyffredinol, ac, felly, byddai cyfradd cyfraniadau’r cyflogwr yn 16.4%. Mae’r prisiad yn dal i gael ei baratoi’n derfynol, a bydd yr Adran yn cadarnhau’r gyfradd derfynol yn y rheoliadau drafft i’w dosbarthu’n ddiweddarach yn ystod y broses ymgynghori hon.

- *Y cap ar gostau cyflogwyr* - yn unol â’r cyfarwyddiadau, hon fydd y gyfradd a bennir yn adroddiad y prisiad.
- *Y dull o gytuno ar newidiadau i’r cynllun er mwyn adfer costau i lefel y gost darged os caiff y cap ar gostau cyflogwyr ei dorri, a’r dull rhagnodedig o wneud hynny* - Nododd yr Adran yn PFA y TPS mai addasiad i’r gyfradd gronni (i fyny neu i lawr, fel y bo’n briodol) fyddai’r dull rhagnodedig o adfer costau os bydd adroddiad y prisiad yn dangos bod costau perthnasol wedi cynyddu neu wedi lleihau dros 2% o lefel y cap. Yn unol â’r cyfarwyddiadau, a chanllawiau Trysorlys EM, mae’r Adran yn cynnig proses lle:
    - ar ôl adroddiad y prisiad, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn comisiynu Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn yr Athrawon (a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr allweddol cyflogwyr ac aelodau) i wneud argymhelliad, o fewn cyfnod o chwe mis, ynghylch a ddylid derbyn yr opsiwn rhagnodedig neu gael opsiwn arall y mae’r Bwrdd wedi cytuno yn ei gylch (DS: os na fydd cytundeb ynglŷn ag opsiwn arall cynhelir ymgynghoriad ar y dull rhagnodedig);
    - wedyn cynhelir ymgynghoriad â phob rhanddeiliad ynglŷn â’r newidiadau arfaethedig;
    - caiff unrhyw ddiwygiad i’r cynllun ei bennu wedyn a’i gyflwyno ar yr un pryd ag y byddai canlyniad y prisiad yn cael ei weithredu fel arfer (h.y. o fewn tair blynedd i ddyddiad gweithredu cychwyn ar y prisiad), os oes modd, ond gyda ‘dyddiad wrth gefn’ o fewn uchafswm o bedair blynedd o’r cylch prisio sy’n cychwyn. O fewn hynny, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol lle mae’r Ysgrifennydd Gwladol o’r farn bod rhesymau da dros ganiatáu mwy o amser, e.e. am fod opsiwn amgen i’r opsiwn rhagnodedig y mae’n werth ei ystyried ymhellach, y byddai amser ychwanegol yn cael ei ddefnyddio.

19. Mae trefniadau’r TPS eisoes yn darparu ar gyfer penodi actiwari â chymwysterau addas i’r cynllun, ac awdurdod cyfrifol i gynnal a darparu gwybodaeth ar gyfer y prisiad; dyma’r gofynion allweddol eraill yn y cyfarwyddiadau. Nodir manylion

ynglŷn â sut y darperir ar gyfer y gyfradd i gyflogeion yn y rheoliadau mewn adran ar wahân isod.

20. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chanlyniadau'r broses brisio, gan fod y dulliau a ddefnyddiwyd eisoes wedi'u pennu gan Drysorlys EM. Yn hytrach na hynny, mae'n ymwneud â'r ffordd y mae'r TPS yn darparu ar gyfer y broses brisio a phroses y cap ar gostau.

    **Cwestiwn 1:** A ydych o'r farn bod yr Adran wedi cwmpasu'r hyn sy'n ofynnol o dan y cyfarwyddiadau yn addas?

    **Cwestiwn 2**: A oes unrhyw beth arall y dylai'r Adran ei gwmpasu wrth bennu'r broses o ymdrin â thorri'r cap ar gostau cyflogwyr?

Trefniadau ariannu ar gyfer gweinyddu'r TPS

21. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, drwy swyddogion yr Adran, yn rheoli'r TPS ac yn cadw cyfrifoldeb am lywodraethu'r cynllun, ei gyfeiriad polisi a'i roi ar waith. Ar hyn o bryd, yr Adran sy'n gyfrifol am gostau gweinyddol y TPS (e.e. ffioedd cytundebol ar gyfer gweinyddwr y cynllun, actiwari'r cynllun a chynghorydd meddygol y cynllun). Fodd bynnag, yn y diwydiant pensiwn ehangach, gan gynnwys mewn rhai o gynlluniau pensiwn eraill y sector cyhoeddus, mae'n arferol i gost weinyddol y cynllun gael ei thalu drwy'r gyfradd cyfraniadau.

22. Fel rhan o'r adolygiad ehangach o ddiwygio'r cynllun, rydym wedi achub ar y cyfle i ystyried trefniadau ariannu ar gyfer cyflwyno cynllun diwygiedig a'i gostau cysylltiedig. Rydym hefyd wedi ystyried goblygiadau'r angen i weithredu strwythur llywodraethu diwygiedig er mwyn ymgorffori cynllun 'Bwrdd Pensiwn' o ran cost. Mae'r gofyniad hwn yn deillio o adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus ar ddiwygio pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus, a nododd fod angen i gynlluniau sicrhau bod proses weinyddu effeithiol ac effeithlon ar waith yn gyson.

23. Drwy Fwrdd Pensiynau Cynllun Pensiwn Athrawon ("y Bwrdd"), bydd cyflogwyr ac aelodau'r cynllun mewn sefyllfa i ddylanwadu ar y math o weinyddiaeth a'i ansawdd, a helpu i'w ddewis, a bydd ganddynt rôl ystyrlon o ran penderfynu faint o arian y dylid ei wario ar weinyddu'r cynllun.

24. Er mwyn cysoni cyfrifoldeb y Bwrdd am weinyddu'r cynllun â'r cyfrifoldeb am gost ac effeithlonrwydd y broses weinyddol, mae'r Adran yn cynnig y bydd costau gweinyddu'r cynllun yn cael eu datganoli i gyflogwyr y cynllun ar ffurf ffi weinyddol. Bydd hyn nid yn unig yn sicrhau bod y Bwrdd yn gyfrifol am gostau ac ansawdd y broses weinyddol, ond bydd yn caniatáu i'r Bwrdd gyflwyno atebion sy'n edrych y tu hwnt i'r costau byrdymor uniongyrchol i'r gweinyddwr canolog ac edrych ar gostau ehangach o fewn y system, e.e. efallai y bydd y Bwrdd am fuddsoddi mewn gwasanaethau gan weinyddwr y cynllun a fydd yn golygu costau gweinyddol ar y dechrau ond a fydd yn sicrhau mwy o arbedion yn y tymor hwy i

gyflogwyr drwy leihau'r baich arnynt. Nid yw hyn bob amser yn bosibl ar hyn o bryd, gan fod yn rhaid i gostau ymlaen llaw gael eu talu o gyllideb weinyddol yr Adran. Mae'r ffaith bod cyllidebau Llywodraeth ganolog yn cael eu pennu am gyfnod o hyd at dair blynedd, a bod costau'r TPS yn cyfrif am gyfran fawr o gyllideb weinyddol yr Adran, yn ei gwneud yn anodd iawni'r Adran gefnogi cynigion sydd â chostau sy'n mynd y tu hwnt i gylch cyfredol yr Adolygiad o Wariant neu a fyddai'n cynyddu gwariant untro ar broses weinyddol y cynllun yn sylweddol. Gallai hyn, yn ei dro, gyfyngu ar y cyfle i arloesi yn y gwasanaethau a ddarperir i gyflogwyr ac aelodau.

25. Mae llawer o gyflogwyr yn darparu gwybodaeth a gwasanaeth o safon dda i'w staff ac i weinyddwr y cynllun ar hyn o bryd, ond bydd trosglwyddo'r costau gweinyddol i gyflogwyr yn annog pob cyflogwr i gymryd diddordeb yn ansawdd y broses weinyddol a'r wybodaeth a ddarperir ganddynt i'r gweinyddwr, gan mai'r Adran yn hytrach na'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu'r data hynny i'r gweinyddwr sy'n gyfrifol am gostau sy'n gysylltiedig â datrys problemau data o safon wael a chyfraniadau.

26. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson ag arfer cyffredinol o fewn y sector preifat, lle mae cyflogwyr yn ysgwyddo baich costau gweinyddol. Mae hefyd yn unol â'r hyn y mae rhai o gynlluniau eraill y gwasanaeth cyhoeddus naill ai'n ei wneud ar hyn o bryd, neu'n ystyried ei wneud yn y dyfodol. At hynny, bydd yn sicrhau bod y TPS yn cael ei ariannu'n briodol gan y rhai sy'n cael y budd mwyaf o'r cynllun.

27. Gallai'r costau gweinyddol gael eu codi fel ffi safonol ar bob cyflogwr; fodd bynnag, byddai hynny'n rhoi ysgolion bach o dan anfantais gan y byddent yn wynebu'r un ffi â chyflogwyr llawer mwy. Yn lle hynny, cynigir y byddai'r ffi yn cael ei chodi fel canran o gostau cyflogau, a fyddai'n sicrhau bod y gost i bob cyflogwr yn adlewyrchu maint ei weithlu, ac, felly, y budd y maent yn ei gael o dan y cynllun a'i ffordd y caiff ei weinyddu. Er hwyluso'r broses weinyddol gan gyflogwyr a gweinyddwr y cynllun, cynigir y dylid ychwanegu'r ffi weinyddol hon at gyfraniadau misol pob cyflogwr, a fydd yn daladwy ar y cyd â hwy.

28. Mae costau gweinyddol y TPS fesul aelod gyda'r isaf ymhlith holl gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus, ac maent yn cymharu'n ffafriol â chostau cynlluniau pensiwn fesul aelod yn y sector preifat. Disgwylir i'r costau hyn leihau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, wrth i arbedion effeithlonrwydd pellach gael eu cyflwyno yn y ffordd y mae gweinyddwr y cynllun yn ei weithredu. Felly, bydd y gost ychwanegol i bob cyflogwr unigol yn fach iawn. Mae'r Adran yn amcangyfrif y bydd ffi weinyddol o 0.08% o gostau cyflog cyflogwyr, a fyddai'n cynyddu cyfradd cyfraniadau dros dro'r cyflogwr o 16.4% i 16.48%, yn daladwy o fis Medi 2015.

29. Pennir lefel y ffi weinyddol gan yr angen i barhau i dalu'r costau canlynol -

- ymrwymiadau cytundebol parhaus i dalu costau gweinyddol (gan gynnwys costau rheoli'r cynllun a delir gan yr Adran ar hyn o bryd);
- gwasanaethau actiwari;
- gwasanaethau meddygol annibynnol er mwyn helpu i asesu ceisiadau i ymddeol oherwydd salwch;

- sefydlu Bwrdd Pensiwn y TPS a Bwrdd Cynghorol y Cynllun a pharhau i'w gweithredu.

30. Cynigir y byddai'r ffi weinyddol yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Fwrdd Pensiwn y TPS er mwyn rhoi sicrwydd i gyflogwyr, aelodau a'r Ysgrifennydd Gwladol bod costau priodol sy'n gysylltiedig â darparu a llywodraethu'r TPS yn cael eu hadennill oddi wrth gyflogwyr. Nod y broses hon fyddai sicrhau mai dim ond yr hyn sydd ei angen fyddai'n cael ei adennill, ond byddai'n darparu, os caiff gormod neu os na chaiff digon ei gasglu, y caiff y gyfradd yn y dyfodol ei haddasu yn unol â hynny cyn gynted ag y bo'n briodol gwneud hynny. Yr Ysgrifennydd Gwladol yn y pen draw fyddai'n pennu gwerth y ffi weinyddol; byddai hyn yn cael ei bennu mewn rheoliadau a wneir ar ôl yr ymgynghoriad angenrheidiol â chyflogwyr ac aelodau.

    **Cwestiwn 3:** A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r hyn a gynigir i sicrhau mai cyflogwyr sy'n ysgwyddo costau gweinyddol y cynllun o fis Medi 2015?

## Rhan 3: Cyfraddau cyfraniadau aelodau

31. Yn unol â 'Public Service Pensions: good pensions that last' mae'r PFA ar gyfer y TPS diwygiedig yn cynnwys ymrwymiad y byddai athrawon yn talu cyfradd cyfraniadau gyfartalog o 9.6% o fis Ebrill 2015. Roedd y PFA hefyd yn cynnwys ymrwymiad y byddai adolygiad i ystyried a ddylid cyflwyno cyfradd haenog. Mae'r Adran wedi cwblhau'r adolygiad hwnnw, gyda mewnbwn gan gynrychiolwyr undebau a chyflogwyr. Wrth gynnal yr adolygiad, mae'r Adran wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ac wedi ceisio ateb tri chwestiwn: a yw'n cefnogi'r defnydd o gyfraniadau haenog?; os felly, sawl haen y dylid ei chyflwyno?; a beth ddylai'r gwahaniaeth fod rhwng yr haen uchaf a'r haen isaf?

32. Mae'r Adran o'r farn bod cyflawnhad dros gadw cyfraniadau haenog, o leiaf yn y byrdymor. Y ffactor pwysicaf dros hynny yw y bydd niferoedd mawr o aelodau gweithredol ar ôl 2015 y bydd ganddynt lawer o wasanaeth cyflog terfynol, ac mae hynny'n golygu y bydd aelodau o'r cynllun â thal uwch yn dal i dueddu i gael budd mwy yn gymesur o dan y cynllun na'r rhai â thâl is. At hynny, mae dal angen diogelu'r rhai â thâl is ac mae posibilrwydd o hyd y byddai aelodau o'r fath yn eithrio eu hunain pe bai'r gost iddynt yn codi'n sylweddol ac yn sydyn. Mae'r ansicrwydd hwnnw yn erbyn cefndir o ddiwygio tâl a ffioedd dysgu cynyddol a all effeithio ar ganfyddiad athrawon newydd o fforddiadwyedd.

33. Fodd bynnag, mae'r Adran o'r farn mai'r nod yn y pen draw fyddai symud i strwythur o haenau mwy unffurf pan fydd y rhan fwyaf o aelodaeth y cynllun (neu'r cyfan) yn cronni pensiynau ar sail cyfartaledd gyrfa. Mae'r Adran yn ystyriol iawn o'r risg sy'n gysylltiedig â mwy o aelodau yn eithrio eu hunain, ac, felly, mae'n rhagweld y bydd y cynllun yn symud i strwythur o haenau mwy unffurf dros y ddau gylch prisio nesaf. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Adran werthuso unrhyw newidiadau yn ymddygiad athrawon dros y pedair blynedd nesaf.

34. Pennir y gyfradd cyfraniadau bresennol sy'n daladwy gan unrhyw athro yn ôl eu cyflog cyfwerth ag amser llawn ('FTE'), e.e. bydd didyniad o 11% o gyflog athro sydd â chyflog FTE o £50,000 sy'n gweithio 60% (h.y. yn ennill cyflog gwirioneddol o £30,000) am fod ei gyflog FTE yn ei roi yn yr haen £45k-75k, ond byddai athro sy'n gweithio'n llawn amser ac yn ennill £30k yn talu 8.3% mewn cyfraniadau.

35. Ystyriodd yr Adran y mater hwn pan gyflwynwyd haenau yn gyntaf yn 2012, a daeth i'r casgliad bod defnyddio FTE yn rhesymol ac yn gymesur am fod buddiannau pensiwn yn y cynllun cyflog terfynol yn cael eu cyfrifo ar sail FTE. Nid oes fawr o gyfiawnhad dros barhau i ddefnyddio FTE i bennu cyfraddau cyfraniadau mewn cynllun cyfartaledd gyrfa. Felly, mae'r Adran yn cynnig y dylid symud i ddefnyddio ffigurau gwirioneddol yn hytrach na FTE, gan eu bod yn adlewyrchu'n well y pensiwn sy'n cael ei gronni gan y rhan fwyaf o'r aelodaeth.

36. O ganlyniad, caiff cyfradd cyfraniadau athro ei phennu drwy gyfeirio at ei enillion am gyflogaeth benodol, yn hytrach na'r gyfradd FTE ar ei gyfer. Pan fo athro'n aelod o'r TPS mewn perthynas â mwy nag un gyflogaeth (h.y. mae ganddo ddwy neu fwy o swyddi rhan amser, neu swydd lawn amser a rhan amser yn y TPS) bydd enillion pob cyflogaeth yn pennu'r gyfradd cyfraniadau a delir am bob cyflogaeth benodol.

37. O seilio cyfraddau cyfraniadau ar gyflog gwirioneddol byddai nifer sylweddol o athrawon yn symud i fandiau is, ac er y bydd hyn yn fuddiol ddynt, byddai'n arwain at gynnydd cyfatebol mewn cyfraddau cyfraniadau ar gyfer pob band, yn enwedig y rhai yn yr haenau canol ac uwch. Serch hynny, mae'r Adran o'r farn y gellir cyfiawnhau newid i ddefnyddio cyflog gwirioneddol lle y defnyddir cyfartaledd gyrfa a dylai unrhyw newid o'r fath gael ei wneud ar adeg pan fo'r effaith bosibl yn cael ei lleihau i'r eithaf. Felly, mae'r Adran yn cynnig y dylai'r newid i gyflog gwirioneddol fod yn gymwys o 2015.

38. Mae'r strwythur cyfraniadau arfaethedig isod yn seiliedig ar ddata ar gyflogau gwirioneddol ac yn dangos y bydd newid i gyflog gwirioneddol o fis Ebrill 2015 yn arwain at gynnydd bach iawn mewn cyfraddau cyfraniadau. O ystyried yr holl addasiadau gyda'i gilydd, y cynnydd mwyaf (1%) yw'r cynnydd i'r rhai sydd yn y band cyflog <£15,000 ar hyn o bryd ac a fyddai yn y band cyflog <£25,999 (ac mae hynny o ganlyniad i leihau haenau'n raddol yn hytrach na newid i ddefnyddio cyflogau gwirioneddol). Mae'r Adran o'r farn mai'r strwythur hwn fydd orau er mwyn cyflawni'r nodau a amlinellir uchod.

| | Cyfradd Cyfraniadau | Nifer yr aelodau | | |
|---|---|---|---|---|
| Band cyflog | | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
| £0 - £25,999 | 7.4% | 38,584 | 158,221 | 196,805 |
| £26,000 - £34,999 | 8.6% | 38,219 | 106,061 | 144,280 |
| £35,000 - £41,499 | 9.6% | 43,367 | 103,500 | 146,867 |
| £41,500 - £54,999 | 10.2% | 49,796 | 71,709 | 121,505 |
| £55,000 - £74,999 | 11.3% | 13,958 | 16,061 | 30,019 |
| ≥ £75,000 | 11.7% | 3,721 | 2,698 | 6,419 |

39. Wrth i'r dadleuon o blaid ac yn erbyn haenau barhau i ddatblygu dros y cylchoedd prisio nesaf, mae'r Adran yn cynnig y dylid edrych ar y mater hwn eto ym mhen pedair blynedd, h.y. pan fydd y cylch prisio nesaf yn cael ei gwblhau, yn ôl yr arfaeth, gyda rhagdybiaeth y dylai nifer yr haenau a'r gwahaniaeth rhyngddynt leihau ymhellach, ond y dylai adolygiad arall gael ei gynnal sy'n ystyried rhai ffactorau a ystyrir y tro hwn.

40. Er mwyn sicrhau y caiff y gyfradd cyfraniadau gyfartalog o 9.6% sydd ei hangen ei thalu dros y cyfnod o bedair blynedd a lleihau'r posibilrwydd y bydd aelodau yn graddol symud i haenau uwch o ganlyniad i gynnydd mewn tâl, mae'r Adran yn cynnig y dylai'r haenau gael eu haddasu'n flynyddol. Cafodd nifer o opsiynau eu cyflwyno i gynrychiolwyr aelodau a chyflogwyr, a'u trafod â hwy. Yn ystod y trafodaethau hyn cadarnhawyd y gallai pob un o'r opsiynau a gyflwynwyd gynnig y bwriad ond datganwyd dymuniad o blaid defnyddio'r mynegai a ddefnyddir ar gyfer uwchraddio pensiynau sy'n cael eu talu, sef y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ("MPD") ar hyn o bryd. Yng ngoleuni hyn, mae'r Adran o'r farn bod defnyddio'r MPD fel ffactor priodol wrth uwchraddio bandiau cyflog yn broses syml ac eglur i'r aelodau ond sydd eto'n lleihau'r posibilrwydd o symud anfwriadol rhwng haenau.

**Cwestiwn 4**: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr haenau cyfraniadau a gynigir a'r trefniadau ar gyfer cyfraniadau aelodau o 1 Ebrill 2015?

## Rhan 4 Trosglwyddiadau clwb a threfniadau ar gyfer aelodau sydd â gwasanaeth cymaradwy ym Mhrydain a gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig

41. Roedd y PFA yn cynnwys ymrwymiad y bydd trosglwyddiadau clwb yn y sector cyhoeddus yn parhau, ac y byddai ystyriaeth ynglŷn â'r ffordd orau o gynnal hynny yn y dyfodol. Mae Trysorlys EM a chynlluniau eraill y gwasanaeth cyhoeddus wedi ystyried hynny erbyn hyn, ac, o ganlyniad, mae'r trefniadau ynglŷn â gweithredu'r clwb yn y dyfodol wedi cael eu pennu gan Drysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet (sy'n cynnal y memoranda ynglŷn â sut y bydd trefniadau'r clwb yn gweithredu). Darperir ar gyfer y trefniadau ar gyfer trosglwyddiadau clwb yn y TPS ar ôl iddo gael ei ddiwygio, sy'n seiliedig ar y cyfarwyddyd canolog, yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014 a osodwyd gerbron Senedd y DU ym mis Mawrth 2014.

42. Yn gryno, mae'r trefniadau hynny yn darparu ar gyfer y rhai sy'n symud ar draws y gwasanaeth cyhoeddus i drosglwyddo eu hawliau pensiwn i'r cynllun pensiwn (clwb) newydd ar delerau ffafriol y 'clwb'. Bydd y telerau hynny'n sicrhau'r canlynol -

- bydd buddiannau cyflog terfynol yn symud, yn unol â'r trefniadau presennol, i'r trefniadau cyflog terfynol agored olaf yng nghynllun y clwb y symudir iddo (yn achos y Gwasanaeth Sifil i'r elfen cyflog terfynol o gynllun NUVOS);
- bydd buddiannau cyfartaledd gyrfa yn symud mewn ffordd sy'n eu diogelu, h.y. drwy sicrhau bod buddiannau a gronnwyd mewn cynllun pensiwn penodol yn parhau i gael eu mynegeio yn unol â'r trefniadau ar gyfer y cynllun penodol hwnnw hyd yn oed ar ôl trosglwyddo;
- lle mae gan unigolion fuddiannau cyflog terfynol a buddiannau cyfartaledd gyrfa byddant yn symud, fel trosglwyddiad dwy ran, i bob diben;
- lle mae gan unigolion ddiogelwch sy'n gymwys i'w buddiannau cyflog terfynol presennol, caiff y rhain eu cynnal, ar yr amod y byddai'r unigolyn wedi bod yn gymwys i ddiogelwch o'r fath yn y cynllun clwb newydd hefyd (er enghraifft, byddai aelod a oedd yn 55 oed ar 1 Ebrill 2012 ac yn aelod o Gynllun Pensiwn y GIG bryd hynny, ond a symudodd i'r TPS wedyn, yn cadw statws diogelwch llawn, ond yn amodol ar y terfynau amser a nodir isod).

43. Ar hyn o bryd, bydd yn rhaid gwneud cais i drosglwyddo o fewn 12 mis i ymuno â'r cynllun clwb newydd, ond, yn unol â'r rheolau ynglŷn â bylchau mewn gwasanaeth sy'n effeithio ar ba un a yw diogelwch wedi'i gynnal, o 1 Ebrill 2015 ni fydd trosglwyddiad clwb yn bosibl lle bu bwlch o fwy na 5 mlynedd mewn gwasanaeth rhwng yr aelod yn gadael y cynllun clwb blaenorol ac ymuno â'r un newydd. Fodd bynnag, bydd aelodau yn y sefyllfa honno, yn gallu gofyn am drosglwyddiad ar delerau nad ydynt yn delerau clwb.

44. Mae'r trefniadau yn sicrhau y gall buddiannau'r rhai sy'n ymuno â'r TPS o gynlluniau gwasanaeth cyhoeddus eraill, a'r rhai sy'n trosglwyddo o'r cynllun i gynllun tebyg, gael eu trosglwyddo mewn ffordd sydd fwyaf addas o ran trefniadau clwb presennol. At hynny, mae'r diogelwch a roddwyd gan y Llywodraeth mewn perthynas â phontio i drefniadau cyfartaledd gyrfa ar draws cynlluniau'r gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei gymhwyso'n briodol. Mae hyn yn golygu y gall y rhai sy'n nes at oedran ymddeol aros yn y trefniadau cyflog terfynol ac y gellir parhau i gysylltu'r gwasanaeth cyflog terfynol â chyflog ar adeg ymddeol, ar yr amod bod amodau perthnasol yn cael eu bodloni.

45. Fodd bynnag, bydd y terfynau amser sy'n gymwys i'r trefniadau clwb newydd yn golygu na fydd yn briodol nac yn bosibl cynnal y trefniadau arbennig presennol sy'n gymwys i'r rhai sy'n symud rhwng Cynllun Blwydd-daliadau Athrawon yr Alban ("STSS") a Chynllun Pensiwn Athrawon Gogledd Iwerddon ("NITPS") a'r TPS (sy'n gymwys i Gymru a Lloegr).

46. Gelwir y rhain yn Gynlluniau Cymaradwy'r Deyrnas Unedig ("CUKS"): trefniadau sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo hawliau pensiwn i CUKS arall mewn ffordd debyg i'r trefniadau clwb presennol (gan ddarparu gwasanaeth i drosglwyddo o ddydd i ddydd i bob diben). Fodd bynnag, maent hefyd yn rhoi cyfnod diderfyn bron i unigolyn wneud y cais i drosglwyddo, h.y. gall ddewis trosglwyddo eu hawl o dan CUKS unrhyw bryd hyd at Oedran Pensiwn Arferol ("NPA"), neu hyd yn oed ar ôl hynny os ymunodd â'r CUKS newydd cyn NPA ac nad yw wedi cael toriad mewn gwasanaeth gweithredol. At hynny, bydd unrhyw aelod sydd â NPA o 60 oed yn cadw eu NPA yn y gyflogaeth CUKS newydd, oni bai bod gan yr unigolyn doriad o fwy na phum mlynedd mewn gwasanaeth cyhoeddus pensiynadwy. Os bydd toriad o'r fath, bydd gan yr unigolyn NPA o 65 oed ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol, yn unol â'r trefniadau pontio a gyflwynwyd ar y cyd â diwygiadau 2007 i'r TPS.

47. Mae trefniadau Gwasanaeth Prydeinig Cymaradwy ("CBS") yn ymestyn trefniadau o fath CUKS i'r rhai sydd â gwasanaeth yn y cynlluniau i athrawon yn Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw. Mae'r un terfynau amser â therfynau amser CUKS yn gymwys ar hyn o bryd; fodd bynnag, nid yw unigolion sy'n symud i'r TPS o'r cynlluniau hynny yn cadw NPA o 60 oed a throsglwyddir yn unol â thelerau'r clwb.

48. Yng ngoleuni'r newidiadau sy'n digwydd o 1 Ebrill 2015 mewn perthynas â therfynau amser ar gyfer gwneud cais am drosglwyddiadau clwb, bwriedir dileu'r terfynau amser ar gyfer cynnal diogelwch a threfniadau ar gyfer mynegeio mewn swydd fuddiannau cyfartaledd gyrfa, y trefniadau presennol ar gyfer CUKS a throsglwyddiadau CBS yn y Cyflog Terfynol presennol a chyflwyno rheolau clwb newydd yn eu lle.

49. Cynigir y bydd cyfnod pontio o flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 lle y bydd aelodau sydd â hawliau blaenorol mewn trefniant CUKS neu CBS arall yn gallu trosglwyddo'r hawliau hynny ar y sail bresennol. Bydd unrhyw benderfyniad i ddewis trosglwyddo hawliau ar ôl 31 Mawrth 2016 yn amodol ar y rheolau clwb

newydd a bydd y terfynau o 12 mis a phum mlynedd a grybwyllir uchod yn gymwys wedyn. Mae'r TPS yn cydgysylltu â'r CUKS eraill ynglŷn â'r newid hwn a'r ffordd orau o hysbysu aelodau amdano.

50. Yn gyffredinol, bydd y trefniadau clwb newydd yn darparu ar gyfer athrawon yn y cynlluniau eraill dan sylw i drosglwyddo eu buddiannau yn unol â gweithwyr eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus ac mewn ffordd sy'n eu galluogi i gyfuno a diogelu eu cynilion pensiwn yn effeithiol, er yn y dyfodol bydd yn rhaid iddynt wneud cais i wneud hynny tua'r adeg y byddant yn symud i'r cynllun newydd. At hynny, bydd y trefniadau a nodir uchod yn sicrhau bod y rhai sydd wedi symud rhwng y cynlluniau dan sylw, ond nad ydynt wedi gwneud cais i drosglwyddo, yn cael digon o amser i wneud hynny er mwyn eu galluogi i fanteisio ar y telerau sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 5:** A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r trefniadau newydd neu'r cynnig i ddarparu cyfnod pontio er mwyn rhoi mwy o amser i aelodau yr effeithir arnynt ddewis trosglwyddo eu gwasanaeth blaenorol yn unol â threfniadau CUKS neu CBS?

51. Er gwybodaeth, rydym yn manteisio ar y cyfle i ystyried effaith cyhoeddiadau yn y Gyllideb ddiweddar mewn perthynas â throsglwyddiadau i gynlluniau pensiwn cyfrannol diffiniedig, a chaiff camau priodol eu cymryd pan fydd ymgynghoriad Trysorlys EM 'Freedom and choice in pensions' wedi dod i ben.

## Rhan 5: Diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 2010

52. Mae'r tabl isod yn nodi diwygiadau canlyniadol i'r rheoliadau ynglŷn â chyflog terfynol sy'n deillio o gyflwyno'r trefniadau cyfartaledd gyrfa. Y nod yw sicrhau bod trefniadau cyffredinol y TPS yn parhau i weithio'n gydlynol ac yn effeithiol ar ôl i'r diwygiadau gael eu cyflwyno.

| Rheoliad i'w newid | Y rheswm dros y newid |
|---|---|
| Rheoliad 64 – Gostyngiad | Yn unol â'r polisi a gyhoeddwyd yn flaenorol, mae angen newid er mwyn caniatáu i'r pensiwn o dan y trefniadau cyfartaledd gyrfa gael ei ystyried wrth gyfrifo gostyngiad ar gyfer y pensiwn cyflog terfynol. |

| | |
|---|---|
| Diwygiad arfaethedig i reoliad 65 ac atodlen 7 paragraff 3(4), buddiannau ymddeol oherwydd salwch - ymestyn y cyfnod o adael cyflogaeth bensiynadwy lle y gellir gwneud cais ‘mewn swydd’ i ymddeol oherwydd salwch o chwe mis i ddwy flynedd. | Yn unol â’r cynigion ar gyfer rheoliadau 2014, cynigir y dylid diwygio’r trefniadau cyflog terfynol i ganiatáu’n well ar gyfer cyflyrau ‘araf i ddatblygu’ neu ‘anodd eu canfod’ ar ôl gadel y proffesiwn addysgu. Bydd y terfyn amser ar gyfer ceisiadau “mewn swydd” (ac felly’r cyfle i gael buddiannau ychwanegol) yn cynyddu o chwe mis i ddwy flynedd ar gyfer ceisiadau sy’n dod i law ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015.<br><br>Dylid nodi na fydd hyn yn effeithio ar y darpariaethau lle y gall cais gael ei ystyried yn gais ‘mewn swydd’ er bod yr aelod yn parhau i fod mewn perthynas cyflogai / cyflogwr. |

## Rhan 6 Newidiadau amrywiol a thechnegol i Reoliadau TPS 2014 a Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2010

53. Mae’r tablau isod yn nodi’r diwygiadau amrywiol a thechnegol y mae’r Adran yn cynnig eu gwneud i’r rheoliadau sy’n llywodraethu’r trefniadaau cyfartaledd gyrfa a’r trefniadau cyflog terfynol. Mae rhai o’r rhain yn ymwneud â chyflwyno’r trefniadau cyfartaledd gyrfa ond mae eraill yn deillio o’r profiad o weithredu’r trefniadau presennol sydd wedi amlygu’r angen i newid neu egluro’r rheoliad penodol. Nod pob un yw sicrhau bod trefniadau cyffredinol y TPS yn parhau i weithio’n gydlynol ac yn effeithiol ar ôl i’r diwygiadau gael eu cyflwyno.

### Diwygiadau amrywiol arfaethedig i Reoliadau TPS 2014

| Newid | Y rheswm dros y newid |
|---|---|
| Diwygiad arfaethedig i’w ychwanegu er mwyn darparu bod y rhai a ymddeolodd oherwydd salwch cyn 1997 wedi’u heithrio o wasanaeth pensiynadwy. | Mae hyn yn parhau â’r sefyllfa gyfredol i nifer o aelodau presennol a ymddeolodd oherwydd salwch cyn 1 Ebrill 1997 ac sy’n gallu parhau mewn cyflogaeth ran amser gyfyngedig a chadw eu pensiwn - ond dim ond ar y sail nad ydynt yn |

| | |
|---|---|
| | ailymuno â'r cynllun.<br><br>Nid yw hyn yn atal rhywun y mae ei iechyd wedi gwella rhag ailymuno â'r cynllun, ond byddai ei bensiwn yn dod i ben pe bai o dan NPA ei gyflog terfynol pan fydd yn gwneud hynny. |
| Diwygiad arfaethedig i reoliad 41 – sawl cyflogaeth gan gynnwys o leiaf un gyflogaeth afreolaidd | Mae rheoliad 41 yn nodi'r ffordd y caiff cyflog ei gyfrifo ar gyfer buddiannau fel rhai yswiriant a delir o dan y cynllun lle mae gan unigolyn gyfuniad o gyflogaethau rheolaidd ac afreolaidd.<br><br>Ar ôl adolygu'r trefniadau unwaith eto, cydnabyddir y gallai aelodau sydd â chontract llawn amser fod o dan anfantais amhriodol pe bai ganddynt gyfran fach o enillion rhan amser afreolaidd hefyd lle mae "cyfradd flynyddol yr enillion pensiynadwy hynny" (h.y. y cyflog cyfwerth ag amser llawn) yn sylweddol is. Byddai'r cyflog cyffredinol at ddibenion buddiannau fel rhai yswiriant yn cael ei leihau o dan yr amgylchiadau hyn.<br><br>O ystyried hyn, cynigir y dylid gwneud cyfrifiad ar wahân, nad yw'n cynnwys cyflogaethau afreolaidd, yn unol â rheoliad 40, er mwyn cadarnhau pa gyfradd o "gyfradd flynyddol enillion pensiynadwy" yw'r uchaf. |
| Diwygiad arfaethedig i Ran 10, Pennod 3 – talu gwerthoedd trosglwyddo | Yn sgil yr ymgynghoriad ym mis Mai 2013 a'r cynigion a nodir uchod, mae'r Adran bellach yn cynnig y dylid caniatáu trosglwyddiadau clwb y tu hwnt i'r NPA (cyfartaledd gyrfa yn ogystal â chyflog terfynol) a hyd at 75 oed. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd drwy ganiatáu i'r rhai sy'n gweithio y tu hwnt i'r NPA gyfuno eu cynilion pensiwn yn eu cynllun clwb newydd – ar yr amod bod ganddo drefniadau trosglwyddo tebyg ar waith.<br><br>Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, dim ond os nad yw buddiannau wedi dechrau cael eu talu y mae hyn yn bosibl. |
| Egluro'r polisi yn Atodlen 7, paragraff 6 a rheoliad 109 (c) – diwrnod hawlio ar gyfer ymddeol oherwydd salwch | Drwy'r diwygiadau yn 2006 cyflwynwyd trefniant pensiwn oherwydd salwch dwy haen newydd ar gyfer aelodau 'mewn swydd' o fis Ionawr 2007. Fel rhan o hynny gwnaed darpariaeth newydd lle y byddai cais yn cael ei ystyried yn gais 'mewn swydd' ar yr amod bod yr aelod yn dal i fod mewn perthynas gytundebol â'r cyflogwr pan y'i gwnaed – hyd yn oed os oedd yr aelod yn cael llai na hanner ei gyflog ac felly nad oedd mewn cyflogaeth bensiynadwy ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| | Yn y rheoliadau wedi'u cydgrynhoi yn 2010, gwnaed newidiadau i'r diwrnod hawlio ar gyfer buddiannau oherwydd salwch er mwyn cynnwys y diwrnod ar ôl i absenoldeb nad yw'n bensiynadwy ddod i ben, ond nad oedd wedi'i gymhwyso'n ymarferol.<br><br>Mae hynny'n egluro, o fis Ebrill 2015, mai'r dyddiad taladwy fydd y diweddaraf o blith y canlynol -<br><br>• y diwrnod y gadawodd yr aelod gyflogaeth bensiynadwy/eithriedig;<br>• y diwrnod lle daeth absenoldeb oherwydd salwch nad yw'n bensiynadwy, absenoldeb teuluol nad yw'n bensiynadwy neu seibiant gyrfa i ben; neu<br>• y diwrnod chwe mis cyn dyddiad adroddiad meddygol a ystyriwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.<br><br>Mae hyn yn unol â'r dyddiad taladwy i aelodau sy'n ymddeol oherwydd salwch o'r trefniadau cyfartaledd gyrfa lle mae unigolyn yn gadael 'cyflogaeth gymwys'. Mae cyflogaeth gymwys o dan y trefniant cyfartaledd gyrfa yn cynnwys absenoldeb oherwydd salwch nad yw'n bensiynadwy, absenoldeb teuluol nad yw'n bensiynadwy neu gyfnod o absenoldeb di-dâl mewn perthynas â'r gyflogaeth honno. |
| Diwygiad arfaethedig i Atodlen 1, Rhan 3 - newid ar gyfer Lycée Français Charles de Gaulle | Ar hyn o bryd, mae Lycée Français Charles de Gaulle yn ysgol a dderbynnir, ond er mwyn caniatáu ar gyfer triniaeth wahanol rhwng gwladolion Ffrengig, sy'n rhan o gynllun Gwasanaeth Sifil Ffrainc ac athrawon eraill, cynigir y bydd yr athrawon olaf hynny yn cael eu derbyn i'r TPS yn y dyfodol gyda chaniatâd y cyflogwr o dan Ran 3 o'r atodlen hon. |

## Diwygiadau technegol arfaethedig i Reoliadau TPS 2014

| Newid | Y rheswm dros y newid |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Diwygiad arfaethedig i reoliad 174(5) – cymudo: pensiynau bach ar gyfer buddiannau teuluol | Mae Rheoliad 174(5) o Reoliadau TPS 2014 yn cyfeirio at 1% o'r Lwfans Gydol Oes safonol fel y terfyn ar y swm y gellir ei hawlio fel cyfandaliad ('wedi'i gymudo') at ddibenion pensiynau teuluol. Yn sgil Cyllideb 2014, bwriedir mabwysiadu terfyn uwch o £30,000.<br><br>Er mwyn cymhwyso'r newid hwn a diogelu unrhyw newid pellach i derfyn cymudo pensiynau bach at y dyfodol, cynigir y dylid diwygio rheoliad 174(5) er mwyn cyfeirio at baragraff 20 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 (fel y'i diwygiwyd). |
| Diwygiad arfaethedig i Atodlen 3 - aelod gweithredol o'r cynllun presennol ym mharagraffau 14(c), 15(d)(i) a (ii), a 16(3)(b) a NPA i aelodau sy'n pontio sy'n ymrwymo i'r trefniant cyfartaledd gyrfa ym mharagraffau 21(c)(i) a 22(3)(b). | Cynigir y dylid diwygio'r dyddiad olaf yn yr is-baragraffau y cyfeiriwyd atynt drwy newid 1 Medi 2025 i ddarllen 30 Medi 2025 er mwyn sicrhau bod yr aelodau hynny a oedd o fewn 13 mlynedd a 6 mis o'r NPA ar 1 Ebrill 2012 yn cael diogelwch wedi'i dapro. Bydd yr aelodau dan sylw yn ymrwymo i'r trefniant cyfartaledd gyrfa ar 1 Mehefin 2015 yn hytrach na 1 Ebrill 2015; – bwriadwyd gwneud hyn yn y PFA.<br><br>O ganlyniad i hyn, mae hefyd angen diwygio'r dyddiadau sy'n gymwys i aelodau heb ddiogelwch ac sy'n ymrwymo i'r trefniant cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2015. Bydd gan yr aelodau hyn NPA ar , neu ar ôl, 1 Hydref 2025 yn hytrach 2 Medi 2025. |
| Ychwanegiadau arfaethedig i Atodlen 3 paragraffau 38 a 39 – ailgyfrifo ychwanegiad oherwydd salwch cyn 6 Ionawr 2007 ar ôl ymddeol wedyn lle mae iechyd aelod wedi gwella ac mae ganddo wasanaeth pensiynadwy yn y trefniadau cyfartaledd gyrfa. Bydd trefniadau cyfartaledd gyrfa hefyd yn cael eu hystyried wrth gyfrifo hawl dibynnydd ar baragraff 41 a 43 o Atodlen 3. | Cynigir y dylid darparu nodyn ychwanegol yma er mwyn egluro y caiff gwasanaeth o dan y trefniadau cyfartaledd gyrfa ei ystyried wrth ailgyfrifo unrhyw ychwanegiad o dan y cynllun cyflog terfynol a roddwyd yn unol â Rheoiladau Pensiynau Athrawon 1997.<br><br>Drwy ystyried y trefniadau cyfartaledd gyrfa, bydd triniaeth gyson â'r cyfrifiadau ar gyfer aelodau cyflog terfynol sy'n parhau i fod yn rhan o'r cynllun a sicrheir nad oes budd gormodol o'r ychwanegiad na'r buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth yn y dyfodol (ar ôl dychwelyd i gyflogaeth bensiynadwy). |
| Nodyn ychwanegol arfaethedig i atodlen 3 – adolygu buddiannau i gwmpasu'r rhai a ymddeolodd oherwydd salwch cyn 6 Ionawr 2007, sy'n ymrwymo i'r trefniadau cyfartaledd gyrfa ac yna y dyfernir ychwanegiad ("TIB") iddynt. | Cynigir diwygiad i reoliadau 2014 i'r perwyl, lle mae'r cyfryw aelodau yn cadw ychwanegiad o dan y cynllun cyflog terfynol ac yn dod yn gymwys i gael TIB o dan y cynllun cyfartaledd gyrfa, y caiff rheolwr y cynllun, ar ôl cael cyngor actiwari, benderfynu ar y swm priodol o ychwanegiad, TIB neu'r ddau. Mae hyn yn unol â'r trefniadau cyflog terfynol presennol ac mae ar waith er mwyn sicrhau bod cyfanswm yr |

| | |
|---|---|
| | ychwanegiad yn rhesymol ond nid yn ormodol. Caiff adolygiad tebyg ei ychwanegu mewn perthynas â buddiannau dibynyddion sy’n daladwy ar adeg marwolaeth. |

## Diwygiadau amrywiol arfaethedig i Reoliadau Pensiynau Athrawon 2010

| Newid | Y rheswm dros y newid |
|---|---|
| Diwygiadau arfaethedig i reoliadau 31 a 35, (talu a derbyn gwerthoedd trosglwyddo) – i ganiatáu trosglwyddiadau clwb ar ôl yr NPA | Diwygiadau arfaethedig yn unol â’r cynigion ar gyfer rheoliadau 2014 er mwyn caniatáu trosglwyddiadau clwb ar ôl yr NPA a hyd at 75 oed. |
| Diwygiadau arfaethedig i reoliad 64 (gostyngiad) – er mwyn sicrhau bod hyn yn gweithio’n briodol i’r rhai sy’n gadael ac yn hawlio buddiannau rhan o’r ffordd drwy flwyddyn y cynllun ac i aelodau sy’n ymddeol fesul cam. | Er mwyn sicrhau y gall y cyfrifiad gael ei gymhwyso’n briodol, cynigir y dylid cyflwyno diwygiad i nodi bod y ‘cyflog y cyfeirir ato’ yn cael ei ddosrannu yn y flwyddyn dreth pan ddaw’r aelod yn gymwys i gael buddiannau ymddeol yn gyntaf.<br><br>Mae newidiadau technegol hefyd yn cael eu gwneud i egluro na fydd aelod a ailgyflogwyd sydd hefyd yn cael buddiannau ymddeol fesul cam, yn gweld gostyngiad yn yr elfen o’i bensiwn sy’n ymwneud ag ymddeol fesul cam, er y gellid gostwng unrhyw bensiwn a ddyfernir ar sail oedran. |
| Diwygiadau arfaethedig i reoliad 121 (fforffedu) – gwneud y broses, gan gynnwys sut i gyflwyno sylwadau, yn fwy eglur. | Cynigir y dylid gwneud diwygiadau er mwyn gwneud y broses a’r cyfle i gyflwyno sylwadau yn fwy eglur. |
| Diwygiad arfaethedig i Atodlen 2, Rhan 3 - newid ar gyfer Lycée Français Charles de Gaulle | Ar hyn o bryd, mae Lycée Français Charles de Gaulle yn ysgol a dderbynnir, ond er mwyn caniatáu ar gyfer triniaeth wahanol rhwng gwladolion Ffrengig, sy’n rhan o gynllun Gwasanaeth Sifil Ffrainc, ac athrawon eraill, cynigir y bydd yr athrawon olaf hynny yn cael eu derbyn i’r TPS yn y dyfodol gyda chaniatâd y cyflogwr o dan Ran 3 o’r Atodlen hon. |

| | |
|---|---|
| Diwygiad arfaethedig i Atodlen 9 – Gwasanaeth buddiannau teuluol | Yn unol â newidiadau i fuddiannau'r aelodau eu hunain, cynigir y dylid dileu'r terfyn lle na all ychwanegiad at wasanaeth buddiannau teuluol fynd â chyfanswm y gwasanaeth yn fwy na 40 mlynedd (cyn y byddai'r aelod wedi cyrraedd 60 oed). Bydd y terfyn cyffredinol ar wasanaeth cyfrifadwy, sef 45 mlynedd, yn dal i fod yn gymwys. |
| Diwygiad arfaethedig i Atodlen 13 – Unigolion a fu'n aelodau o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) gynt | Cynigir y dylid diwygio paragraff 26 o Atodlen 13 i egluro bod cyn-aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG yn cadw hawl i NPA o 55 oed os cawsant eu diswyddo'n orfodol cyn 50 oed – bydd hyn yn efelychu rheoliad R2(3)(b) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1995 i gyn-nyrsys ac ati a R3(5) i gyn-swyddogion iechyd meddwl. |

## Diwygiadau technegol arfaethedig i Reoliadau Pensiynau Athrawon 2010

| Newid | Y rheswm dros y newid |
|---|---|
| Diwygiad arfaethedig i reoliad 17 - Cap ar gyflog cyfranadwy | Cynigir y dylid diwygio'r rheoliad hwn i egluro mai dim ond yr aelodau hynny yr oedd eu cyfradd flynyddol o gyflog cyfranadwy yn uwch na'r cap ar enillion cyn, neu ar, 31 Mawrth 2008 (£112,800) y bydd y cap ar enillion yn effeithio arnynt yn y dyfodol.<br><br>At hynny, bydd angen gwneud diwygiadau er mwyn sicrhau bod y cap ar enillion yn parhau i gynyddu yn unol â'r mynegai chwyddiant gwreiddiol, gan nad yw'r ddarpariaeth flaenorol (Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Cofrestredig (Addasu Rheolau Cynlluniau sy'n Bodoli Eisoes 2006) yn weithredol mwyach. |
| Diwygiad arfaethedig i reoliad 71 – Cyfrifo buddiannau ymddeol ar ôl i bensiwn oherwydd salwch beidio â bod yn daladwy: atodol | I aelodau sydd â gwasanaeth cymysg (h.y. y rhai a ymddeolodd oherwydd salwch o dan y cynllun NPA 60 oed ac ymunodd wedyn â'r cynllun NPA 65 oed) cynigir y dylid cymhwyso'r cyfrifiad llithro (lle y caiff ychwanegiad blaenorol ei ailgyfrifo) at wasanaeth NPA 60 oed yn hytrach na gwasanaeth NPA 65 oed. Drwy briodoli'r ychwanegiad i wasanaeth NPA 60 oed, gall cyfandaliadau awtomatig a oedd yn cael eu talu gynt gael eu hadennill yn briodol o dan reoliad 62(5). |

| | |
|---|---|
| Diwygiad arfaethedig i reoliad 119 (8)(d) – cymudo: pensiynau bach mewn perthynas ag aelodau'r teulu | Yn unol â'r diwygiad arfaethedig i reoliad 174(5) o Reoliadau 2014, er mwyn diogelu'r ffordd y caiff newidiadau i derfyn cymudo pensiynau bach eu cymhwyso at fuddianau teuluol yn y TPS yn y dyfodol (a thrwy hynny ystyried y terfyn uwch newydd a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2014), caiff rheoliad 119 o reoliadau 2010 ei ddiwygio fel ei fod yn cyfeirio at baragraff 20 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 (fel y'i diwygiwyd). |

## Cwestiynau pellach

**Cwestiwn 6:** A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r diwygiadau arfaethedig a nodir yn rhannau 5 ac 6 uchod?

**Cwestiwn 7:** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori?

## Sut i ymateb

54. Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy gwblhau'r ffurflen ymateb a'i hanfon drwy e-bost i: reformedteacherspension.consultation@education.gsi.gov.uk neu drwy anfon eich ymateb drwy'r post i:

    The Teachers' Pensions Reform Team, GF Area B, Department for Education, Mowden Hall, Staindrop Road, Darlington, DL3 9BG.

## Copïau ychwanegol

55. Mae copïau ychwanegol ar gael yn electronig a gellir eu lawrlwytho o wefan Gov.uk yn:

www.gov.uk/government/collections/teachers-pension-scheme

## Cynlluniau ar gyfer cyhoeddi'r canlyniadau

56. Caiff canlyniadau'r ymgynghoriad ac ymateb yr Adran eu cyhoeddi ar wefan Gov.uk.

Department
for Education

© Crown copyright 2014

You may re-use this document/publication (not including logos) free of charge in any format or medium, under the terms of the Open Government Licence v2.0. Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

To view this licence:
visit www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2
email psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

About this publication:
enquiries www.education.gov.uk/contactus
download www.gov.uk/government/publications

Reference: DFE-00389-2014

Follow us on twitter:
@educationgovuk

Like us on facebook:
facebook.com/educationgovuk